Public Document Pack

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Bridgend County Borough Council**

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate**
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643147 / 643694
Gofynnwch am / Ask for: Gwasanaethau Democrataidd

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Gwener, 11 Rhagfyr 2020

Annwyl Cynghorydd,

**PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3**

Cynhelir Cyfarfod Pwyllgor Craffu Testun 3 o bell trwy Skype ar **Dydd Iau, 17 Rhagfyr 2020** am **09:30**.

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
   Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2. Datganiadau o fuddiant
   Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3. Cymeradwyaeth Cofnodion — 3 - 6
   I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 16/11/20

4. Verbal Update from the Corporate Director - Communities

   **Gwahoddedigion**
   Janine Nightingale, Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
   Cynghorydd Richard Young, Aelod Cabinet Cymunedau
   Zak Shell, Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth

5. Diweddariad ar Raglen Waith — 7 - 10

6. Materion Brys
   I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

**Ffôn/Tel: 01656 643643** **Facs/Fax: 01656 668126** **Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk**
**Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014** **Twitter@bridgendCBC** **Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk**
**Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun**
**Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service**
**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg**
**We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh**

Nodyn: Sylwch: Yn sgil yr angen i gadw pellter cymdeithasol, ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ei leoliad arferol. Yn hytrach, bydd hwn yn gyfarfod rhithwir a bydd Aelodau a Swyddogion yn mynychu o bell. Bydd y cyfarfod yn cael ei recordio i'w ddarlledu ar wefan y Cyngor cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y cyfarfod. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Yn ddiffuant
**K Watson**
Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

**Dosbarthiad:**

| Cynghowrwyr | Cynghorwyr | Cynghorwyr |
|---|---|---|
| JPD Blundell | JR McCarthy | E Venables |
| N Clarke | JC Radcliffe | MC Voisey |
| P Davies | RMI Shaw | LM Walters |
| DK Edwards | JC Spanswick | JE Williams |
| DG Howells | RME Stirman | |
| DRW Lewis | G Thomas | |

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 16 TACHWEDD 2020, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd JPD Blundell – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Clarke | P Davies | DK Edwards | DG Howells |
| DRW Lewis | JC Radcliffe | RMI Shaw | JC Spanswick |
| RME Stirman | G Thomas | E Venables | MC Voisey |
| LM Walters | JE Williams | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Rachel Pick | Swyddog Craffu |
| Tracy Watson | Swyddog Cymorth Craffu |

106. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

107. DERBYN Y COFNODION

PENDERFYNWYD: I dderbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 3 wedi'u dyddio 14 Tachwedd 2019 a 23 Ionawr 2020 fel rhai gwir a chywir.

108. DIWEDDARIAD AR Y BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Swyddog Craffu'r adroddiad. Dywedodd, yn dilyn y cyfnod clo ym mis Mawrth, fod Pwyllgorau Craffu wedi'u gohirio i ddechrau arni gan fod y Cyngor yn canolbwyntio ar flaenoriaethau mewn ymateb i bandemig Covid-19. Gofynnodd adroddiad i'r Cabinet ym mis Mehefin fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystyried creu Panel Adfer Trawsbleidiol, a gafodd ei gymeradwyo yn eu cyfarfod ym mis Gorffennaf. Sefydlwyd panel gyda'r nod o siapio, llywio a chynghori'r Cabinet ar gynllunio adferiad y Cyngor i ffurfio sail i gyfnod adfer y pandemig. Cyfarfu'r Panel chwe gwaith ym mis Awst a chynhyrchodd argymhellion i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mis Medi, a gafodd eu hadrodd i'r Cabinet wythnos yn ddiweddarach. Disgwyliwyd ymateb ffurfiol gan y Cabinet yn fuan. Roedd y Panel Adfer yn awr yn disgwyl i Asesiad o Effaith ar y Gymuned y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried y canfyddiadau, cyn dewis ei faes ffocws nesaf i'w archwilio mewn mwy o fanylder.

Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu 1 a 2 ym mis Gorffennaf i ystyried adroddiadau ar Addysg Ôl-16 a Theithio Dysgwyr. Roedd y cyfarfod hwn wedi'i ohirio ers mis Mawrth. Ystyriwyd argymhellion ar gyfer Addysg Ôl-16 gan y Cabinet ym mis Gorffennaf, a benderfynodd ar yr opsiwn a ffafriwyd. Ystyriodd yr argymhellion ar gyfer Teithio Dysgwyr ym mis Medi, gan ohirio'r penderfyniad i ddiwygio Polisi Teithio Dysgwyr yr Awdurdod Lleol tan ar ôl yr adolygiad o'r pellteroedd statudol cyfredol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021.

Cynhaliwyd cyfarfodydd y Panel Ymchwilio a Gwerthuso Cyllideb ym mis Gorffennaf. Mae pedwar cyfarfod wedi cael eu cynnal hyd yn hyn, gyda'r cyfarfod terfynol wedi'i drefnu ar gyfer mis Rhagfyr.

Cytunwyd ar Amserlen Cyfarfodydd ar gyfer gweddill y flwyddyn drefol yn y Cyfarfod Cyngor Blynyddol ym mis Medi, a chan fod y Panel Adfer wedi'i sefydlu bellach, cydnabuwyd, wrth symud ymlaen, y byddai angen i gyfarfodydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu gael ffocws a bod yn strategol i osgoi dyblygu gwaith.

Mae'r Cyngor ers hynny wedi cael gwybod y bydd y Setliad Ariannol Llywodraeth Leol gan Lywodraeth Cymru yn hwyrach na'r disgwyl. Golygai hyn y byddai angen i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) gael ei hystyried gan y Pwyllgorau Craffu ar ôl i'r Cabinet ystyried y cynigion drafft ar 19 Ionawr ac nid yng nghylch cyfarfodydd mis Rhagfyr fel y cynlluniwyd yn wreiddiol. O ganlyniad, byddai trefniadau yn cael eu gwneud i symud dyddiadau cyfarfodydd mis Ionawr i hwyluso hyn, a byddai cyhoeddiad yn cael ei wneud yng Nghyfarfod y Cyngor ar 18 Tachwedd.

Gyda'r newidiadau hyn mewn golwg, cynigwyd y byddai'n amserol, yn ei gyfarfod nesaf ar 17 Rhagfyr, fod y Pwyllgor yn derbyn diweddariad ar lafar gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol ynghylch effaith pandemig Covid-19 ar faes Gwasanaethau Cymunedol, a'r ymateb gweithredol.

O ran cyfarfodydd craffu ar ôl y MTFS, gofynnwyd i'r Pwyllgor adnabod unrhyw eitemau eraill i'w hystyried ar y Blaenraglen Waith dros dro ar gyfer gweddill y calendr trefol o gyfarfodydd. Byddai angen pwyslais ar ystyried materion fel effaith, risg, perfformiad, cyllideb a chanfyddiad y gymuned wrth adnabod pynciau i'w hymchwilio. Byddai'r Pwyllgor yn cael cyfle ym mhob cyfarfod i ailedrych ar ei Flaenraglen Waith ac awgrymodd y Swyddog Craffu efallai y bydd aelodau yn dymuno disgwyl tan bwyllgor nesaf y Cyfarfod i bennu pynciau eraill, yn dilyn diweddariad ar lafar gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Roedd Hyfforddiant Sgiliau Cwestiynu ar gyfer Aelodau Craffu a Hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion Craffu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) wedi cael eu gohirio o ganlyniad i'r cyfnod clo cenedlaethol. Roedd WLGA bellach yn gallu cynnig yr hyfforddiant hwn drwy Microsoft Teams. Felly cynigwyd bod dwy sesiwn yn cael eu trefnu: un sesiwn Sgiliau Cwestiynu Craffu i'r holl Aelodau Craffu ac un sesiwn Hyfforddiant Cadeiryddion Craffu i'r holl Gadeiryddion Pwyllgor a Phanel. Dyddiadau i'w cadarnhau.

Gofynnodd Aelod i ddiweddariad ar Orfodaeth gael ei gynnwys fel rhan o'r cyflwyniad ar lafar, gan egluro ei fod wedi cael ei ohirio ar un adeg. Roedd yn ymwneud â gwybod ble'r ydym a phryd gallwn ddychwelyd i'r normal newydd, neu orfodaeth well yn y dyfodol.

Dywedodd un Aelod mai'r hyn yr hoffai ei ddeall nawr nad yw timau yn gweithio gyda'i gilydd, yw pa reolaethau sydd wedi cael eu llacio neu eu newid, a beth sydd wedi cael ei ymgorffori o'r newydd ar draws yr holl dimau i sicrhau bod goruchwyliaeth o'r camau gweithredu sydd wedi cael eu cymryd ar gyfer y ffyrdd newydd o weithio. Yn ogystal, pa wasanaethau sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf yn ystod Covid-19, e.e. graddfa a phoeth-fannau, a pha bwysau ydym yn mynd i'w wynebu a pha mor hir mae'n mynd i gymryd i adfer o'r oediadau yr ydym eisoes wedi'u profi.

Ni adnabuwyd unrhyw eitemau eraill i'w hystyried ar y Blaenraglen Waith ar gyfer gweddill y calendr trefol o gyfarfodydd yn defnyddio'r ffurf gytunedig, a gellid ailedrych ar hyn yn y cyfarfod nesaf.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor yn cadarnhau'r eitemau cychwynnol a gynigwyd ar gyfer Blaenraglen Waith y Pwyllgor a nodir ym mharagraffau 4.3 a 4.4 yr adroddiad hwn.

Bod y Pwyllgor yn gofyn i'r wybodaeth benodol uchod gael ei chynnwys yn yr eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf; y diweddariad ar lafar gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol.

109. ADRODDIAD ENWEBU HYRWYDDWR RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheolaethol adroddiad, a'i ddiben oedd gofyn i'r Pwyllgor enwebu un Aelod fel ei Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol i gynrychioli'r Pwyllgor fel gwahoddedig i gyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet ar faterion Rhianta Corfforaethol.

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau o'r llawr, ac yn dilyn hyn

PENDERFYNWYD: I enwebu'r Cynghorydd J Radcliffe i gynrychioli'r Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 3 fel Gwahoddedig i gyfarfodydd y Cabinet ar faterion Rhianta Corfforaethol.

110. ENWEBIAD I BANEL CRAFFU'R BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheolaethol adroddiad, a'i ddiben oedd gofyn i'r Pwyllgor enwebu un Aelod i eistedd ar Banel Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau o'r llawr, ac yn dilyn hyn

PENDERFYNWYD: I enwebu'r Cynghorydd P Davies fel cynrychiolydd y Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 3 i eistedd fel Aelod o Banel Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

111. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 09.50

This page is intentionally left blank

**BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**REPORT TO SUBJECT OVERVIEW AND SCRUTINY COMMITTEE 3**

**17 DECEMBER 2020**

**REPORT OF THE CHIEF OFFICER – LEGAL, HR & REGULATORY SERVICES**

## FORWARD WORK PROGRAMME UPDATE

### 1. Purpose of the report

a) To present the draft interim Forward Work Programme, including those items delegated to this Subject Overview and Scrutiny Committees;

b) To request the Committee to identify any further items for consideration on the Forward Work Programme for the remainder of the municipal calendar of meetings, using the agreed criteria form.

### 2. Connection to corporate well-being objectives / other corporate priorities

2.1 This report assists in the achievement of the following corporate well-being objectives under the **Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015**:

1. **Supporting a successful sustainable economy** – taking steps to make the county borough a great place to do business, for people to live, work, study and visit, and to ensure that our schools are focussed on raising the skills, qualifications and ambitions for all people in the county borough.

2. **Helping people and communities to be more healthy and resilient** - taking steps to reduce or prevent people from becoming vulnerable or dependent on the Council and its services. Supporting individuals and communities to build resilience, and enable them to develop solutions to have active, healthy and independent lives.

3. **Smarter use of resources** – ensure that all resources (financial, physical, ecological, human and technological) are used as effectively and efficiently as possible and support the creation of resources throughout the community that can help to deliver the Council's well-being objectives.

### 3. Background

3.1 Under the terms of Bridgend County Borough Council's Constitution, each Overview and Scrutiny Committee must publish a Forward Work Programme (FWP) as far as it is known.

3.2 An effective FWP will identify the issues that the Committee wishes to focus on during the year and provide a clear rationale as to why particular issues have been selected, as well as the approach that will be adopted; i.e. will the Committee be undertaking a policy review/ development role ("Overview") or performance management approach ("Scrutiny").

3.3 The FWPs will remain flexible and will be revisited at each COSC meeting with input from each SOSC and any information gathered from FWP meetings with Corporate Directors and Cabinet.

## 4. Current situation/proposal

4.1 The Committee is asked to note the next topic they have been allocated by the COSC in the Table below:

| Scrutiny Committee: | Date: | Report: |
|---|---|---|
| Combined Scrutiny Committee of all Scrutiny Members for | Wednesday 20th January 2021 at 10am | Draft Medium Term Financial Strategy for:<br>- **Education & Family Support;**<br>- **Communities.** |
| Combined Scrutiny Committee of all Scrutiny Members for | Thursday, 21st January 2021 at 10am | Draft Medium Term Financial Strategy for:<br>- **Social Services & Wellbeing**;<br>- **Chief Executive's.** |

and to request the Committee to identify any further items for consideration on the Forward Work Programme for the remainder of the municipal calendar of meetings, using the agreed criteria form.

<u>Corporate Parenting</u>

4.2 Corporate Parenting is the term used to describe the responsibility of a local authority towards looked after children and young people. This is a legal responsibility given to local authorities by the Children Act 1989 and the Children Act 2004. The role of the Corporate Parent is to seek for children in public care the outcomes every good parent would want for their own children. The Council as a whole is the 'corporate parent', therefore all Members have a level of responsibility for the children and young people looked after by Bridgend.

4.3 In this role, it is suggested that Members consider how each item they consider affects children in care and care leavers, and in what way can the Committee assist in these areas.

4.4 Scrutiny Champions can greatly support the Committee in this by advising them of the ongoing work of the Cabinet-Committee and particularly any decisions or changes, which they should be aware of as Corporate Parents.

Identification of Further Items

4.5 The Committee are reminded of the Criteria form, which Members can use to propose further items for the FWP, which the Committee can then consider for prioritisation at a future meeting. The Criteria Form emphasises the need to consider issues such as impact, risk, performance, budget and community perception when identifying topics for investigation and to ensure a strategic responsibility for Scrutiny and that its work benefits the organisation.

**5. Effect upon policy framework and procedure rules**

5.1 The work of the Overview & Scrutiny Committees relates to the review and development of plans, policy or strategy that form part of the Council's Policy Framework and consideration of plans, policy or strategy relating to the power to promote or improve economic, social or environmental wellbeing in the County Borough of Bridgend. Any changes to the structure of the Scrutiny Committees and the procedures relating to them would require the Bridgend County Borough Council constitution to be updated.

**6. Equality Impact Assessment**

6.1 There are no equality implications attached to this report.

**7. Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 Implications**

7.1 The Act provides the basis for driving a different kind of public service in Wales, with 5 ways of working to guide how public services should work to deliver for people. The following is a summary to show how the 5 ways of working to achieve the well-being goals have been used to formulate the recommendations within this report:

- Long-term - The approval of this report will assist in the Planning of Scrutiny business in both the short-term and in the long-term on its policies, budget and service delivery

- Prevention - The early preparation of the Forward Work Programme allows for the advance planning of Scrutiny business where Members are provided an opportunity to influence and improve decisions before they are made by Cabinet

- Integration - The report supports all the wellbeing objectives

- Collaboration - Consultation on the content of the Forward Work Programe has taken place with the Corporate Management Board, Heads of Service, Elected Members and members of the public.

- Involvement - Advanced publication of the Forward Work Programme ensures

that the public and stakeholders can view topics that will be discussed in Committee meetings and are provided with the opportunity to engage.

**8. Financial implications**

8.1 The delivery of the Forward Work Programme will be met from within existing resources for Overview and Scrutiny support.

**9. Recommendations**

9.1 The Committee is recommended:

a) To note the next item for the draft interim Forward Work Programme, including those items delegated to this Subject Overview and Scrutiny Committee;

b) To identify any further items for consideration on the Forward Work Programme for the remainder of the municipal calendar of meetings, using the agreed criteria form.

**K Watson**
**Chief Officer - Legal, HR & Regulatory Services**
**11 December 2020**

**Contact Officer:** Rachel Pick
Scrutiny Officer

**Telephone:** (01656) 643613

**E-mail:** scrutiny@bridgend.gov.uk

**Postal Address** Bridgend County Borough Council,
Civic Offices,
Angel Street,
Bridgend,
CF31 4WB

**Background documents:** None